



HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU NOTICE OF AMENDMENTS

Cyflwynwyd ar 27 Mehefin 2013
Tabled on 27 June 2013

Bil Teithio Llesol (Cymru) Active Travel (Wales) Bill

Alun Ffred Jones

22A

As an amendment to amendment 22, after line 3, insert—

‘() increases in the proportion of journeys made by walking or cycling’.

Fel gwelliant i welliant 22, ar ôl llinell 3, mewnosoder –

‘() cynnydd yn y gyfran o deithiau a wneir drwy gerdded neu feicio’.

Alun Ffred Jones

22B

As an amendment to amendment 22, line 4, leave out ‘or’ and insert ‘and’.

Fel gwelliant i welliant 22, llinell 4, hepgorer ‘neu’ a mewnosoder ‘a’.

Alun Ffred Jones

22C

As an amendment to amendment 22, line 6, leave out ‘(or both)’.

Fel gwelliant i welliant 22, llinell 6, hepgorer ‘(neu’r ddau)’.

Alun Ffred Jones 31

Section 7, page 5, after line 14, insert—

- (3) Each local authority must publish a report for each financial year noting both the improvement made pursuant to its duty under subsection (1) and the costs incurred by it pursuant to that duty.’.

Adran 7, tudalen 5, ar ôl llinell 15, mewnosoder—

- (3) Rhaid i bob awdurdod lleol gyhoeddi adroddiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn nodi’r gwelliant a wnaed yn unol â’i ddyletswydd o dan is-adran (1) a’r costau yr aed iddynt yn unol â’r ddyletswydd honno.’.

Alun Ffred Jones 32

Section 9, page 5, after line 24, insert—

- () vulnerable users, including people with sensory impairments and learning difficulties.’.

Adran 9, tudalen 5, ar ôl llinell 25, mewnosoder—

- () defnyddwyr hyglwyf, gan gynnwys pobl sydd â nam ar y synhwyrau ac anawsterau dysgu.’.

Eluned Parrott 7A

As an amendment to amendment 7, after line 6 , insert—

- () proximity to community services and facilities’.

Fel gwelliant i welliant 7, ar ôl llinell 6, mewnosoder—

- () ei hagosatrwydd at wasanaethau a chyfleusterau cymunedol’.

Eluned Parrott 33

Section 1, page 1, after line 15, insert—

- () requiring local authorities to promote active travel and the safe use of active travel routes by members of the public,’.

Adran 1, tudalen 1, ar ôl llinell 17, mewnosoder—

- () sy’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol hybu teithio llesol a’r defnydd diogel o lwybrau teithio llesol gan aelodau’r cyhoedd. ’.

Eluned Parrott 34

Section 2, page 2, line 11, after ‘journeys,’ , insert ‘including but not limited to whether the route is continuous, direct, safe and comfortable,’.

Adran 2, tudalen 2, llinell 11, ar ôl ‘hynny,’ , mewnosoder ‘gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i pa un a yw’r llwybr yn un parhaus, uniongyrchol, diogel a chyfforddus,’.

Eluned Parrott 35

Section 2, page 2, line 13, leave out ‘mean’ and insert ‘include, but are not limited to’.

Adran 2, tudalen 2, llinell 13, hepgorer ‘ystyr “cyfleusterau cysylltiedig”, mewn perthynas â llwybr teithio llesol, yw’ a mewnosoder ‘mae “cyfleusterau cysylltiedig”, mewn perthynas â llwybr teithio llesol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i’.

Eluned Parrott 36

Section 3, page 2, after line 22, insert –

‘() carry out an audit of existing routes,’.

Adran 3, tudalen 2, ar ôl llinell 23, mewnosoder –

‘() cynnal archwiliad o lwybrau presennol,’.

Eluned Parrott 37

Section 3, page 3, line 16, leave out ‘before the end of each period of 3 years beginning with the day on which it was last approved by them’ and insert ‘on each occasion that the integrated network map is submitted for approval in accordance with sections 4(4)(a) and 4(7)(c)’.

Adran 3, tudalen 3, llinell 17, hepgorer ‘cyn diwedd pob cyfnod o dair blynedd sy’n dechrau ar y dyddiad y’i cymeradwywyd ganddynt ddiwethaf’ a mewnosoder ‘ar bob achlysur y caiff y map rhwydwaith integredig ei gyflwyno i’w gymeradwyo yn unol ag adrannau 4(4)(a) a 4 (7)(c)’.

Eluned Parrott 38

Section 4, page 3, line 31, after ‘to’, insert ‘the fact that it is desirable to promote active travel in its area and’.

Adran 4, tudalen 3, llinell 36, hepgorer ‘i ganllawiau’ a mewnosoder ‘i’r ffaith ei bod yn ddymunol hybu teithio llesol yn ei ardal a chanllawiau’.

Eluned Parrott 39

To insert a new section –

‘() Promotion of Active Travel

- (1) Each local authority must, in exercising its functions under this Act take those steps that it considers appropriate to promote active travel and the safe use of active travel routes by members of the public.
- (2) The steps that may be taken under subsection (1) include, but are not limited to –
 - (a) providing information and advice,
 - (b) providing or arranging for the provision of services and facilities that promote active travel, and

- (c) providing or arranging the provision of training for persons seeking to use active travel routes and related facilities.
- (3) A local authority must, in exercising the functions conferred by this section have regard to guidance given by the Welsh Ministers.’.

I fewnosod adran newydd –

‘() Hybu Teithio Llesol

- (1) Rhaid i bob awdurdod lleol, wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf hon gymryd y camau hynny sy’n briodol yn ei farn ef i hybu teithio llesol a’r defnydd diogel o lwybrau teithio llesol gan aelodau’r cyhoedd.
- (2) Mae’r camau y caniateir eu cymryd o dan is-adran (1) yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i –
 - (a) darparu gwybodaeth a chyngor,
 - (b) darparu neu drefnu ar gyfer darparu gwasanaethau a chyfleusterau sy’n hybu teithio llesol, ac
 - (c) darparu neu drefnu ar gyfer darparu hyfforddiant i bersonau sy’n ceisio defnyddio llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig’.
- (3) Rhaid i awdurdod lleol, wrth arfer y swyddogaethau a roddir o dan yr adran hon, ystyried y canllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.’.

Eluned Parrott

40

Section 7, page 5, after line 14, insert –

- ‘(3) At the end of each period of 1 year following the date on which the Welsh Ministers approved its existing routes map, each local authority must publish an online a report setting out the steps it has taken to perform the duty imposed by subsection (1).
- (4) The Welsh Minsters must report annually to the National Assembly for Wales on the progress made by local authorities in performing the duty imposed by subsection (1).’.

Adran 7, tudalen 5, ar ôl llinell 15, mewnosoder –

- ‘(3) Ar ddiwedd pob cyfnod o 1 flwyddyn yn dilyn y dyddiad y cymeradwyodd Gweinidogion Cymru ei fap presennol o lwybrau, rhaid i bob awdurdod lleol gyhoeddi adroddiad ar-lein yn nodi’r camau y mae wedi eu cymryd i gyflawni’r ddyletswydd a osodir gan is-adran (1).
- (4) Rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno adroddiad blynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cynnydd y mae awdurdodau lleol wedi’i wneud wrth gyflawni’r ddyletswydd a osodir gan is-adran (1).’.

Eluned Parrott

41

Section 8, page 5, line 18, leave out ‘have regard to the desirability of enhancing’ and insert ‘enhance’.

Adran 8, tudalen 5, llinell 19, hepgorer ‘roi sylw i ddymunoldeb gwella’ a mewnosoder ‘wella’.

Eluned Parrott 42

Section 8, page 5, line 18, after ‘cyclists’, insert ‘unless the particular circumstances make it unreasonable to do so’.

Adran 8, tudalen 5, llinell 19, ar ôl ‘beicwyr’, mewnosoder ‘oni bai fod yr amgylchiadau penodol yn ei gwneud yn afresymol i gwneud hynny’.

Eluned Parrott 43

Section 8, page 5, after line 18, insert –

- ‘() Any local authority that concludes that it would be unreasonable to include enhanced provision pursuant to subsection (1) must notify the Welsh Ministers of the circumstances that led it to that conclusion.’.

Adran 8, tudalen 5, ar ôl llinell 19, mewnosoder –

- ‘() Rhaid i unrhyw awdurdod lleol a ddaw i’r casgliad y byddai’n afresymol cynnwys darpariaeth well yn unol ag is-adran (1) hysbysu Gweinidogion Cymru o’r amgylchiadau a arweiniodd ef at y casgliad hwnnw.’.

Eluned Parrott 44

Section 8, page 5, after line 18, insert –

- ‘() The Welsh Ministers and each local authority must, in the exercise of their functions under the following enactments, have regard to the fact that it is desirable to enhance the provision for walkers and cyclists –
- (a) Parts 4, 9 and 12 of the Highways Act 1980 (creation, maintenance, improvement and obstruction of highways and acquisition of land),
 - (b) the Road Traffic Regulation Act 1984,
 - (c) Part 3 of the New Roads and Street Works Act 1991 (street works), and
 - (d) Part 2 of the Traffic Management Act 2004 (network management by local traffic authorities).’.

Adran 8, tudalen 5, ar ôl llinell 19, mewnosoder –

- ‘() Rhaid i Weinidogion Cymru a phob awdurdod lleol, wrth arfer eu swyddogaethau o dan y deddfiadau a ganlyn, roi sylw i’r ffaith ei bod yn ddymunol gwella’r ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr –
- (a) Rhannau 4, 9 a 12 o Ddeddf Priffyrdd 1980 (creu, cynnal, gwella a rhwystrau ar briffyrdd a chaffael tir),
 - (b) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984,
 - (c) Rhan 3 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (gwaith stryd); a
 - (d) Rhan 2 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004 (rheoli rhwydwaith gan awdurdodau traffig lleol).’.

Eluned Parrott

45

Section 10, page 5, after line 29, insert –

- ‘() In giving guidance or directions under this Act, the Welsh Ministers must have regard to the fact that it is desirable to –
- (a) promote active travel in Wales, and
 - (b) improve the range, quality, nature and standard of active travel routes and related facilities.’

Adran 10, tudalen 5, ar ôl llinell 30, mewnosoder –

- ‘() Wrth roi arweiniad neu gyfeiriad o dan y Ddeddf hon, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i’rfaith ei bod yn ddymunol –
- (a) hybu teithio llesol yng Nghymru, a
 - (b) gwella amrywiaeth, ansawdd, natur a safon llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig.’

Eluned Parrott

46

Long title, page 1, line 5, after ‘walking;’, insert ‘the promotion of active travel and the safe use of active travel routes;’.

Teitl hir, tudalen 1, llinell 6, ar ôl ‘priffyrdd;’, mewnosoder ‘ar gyfer hybu teithio llesol a’r defnydd diogel o lwybrau teithio llesol;’.

Byron Davies

7B

As an amendment to amendment 7, line 1, leave out ‘Welsh Ministers’ and insert ‘local authority’.

Fel gwelliant i welliant 7, llinell 1, hepgorer ‘Gweinidogion Cymru’ a mewnosoder ‘awdurdod lleol’.

***Byron Davies**

24A

As an amendment to amendment 24, line 2, leave out ‘no later than the end of the period of 5 years beginning immediately after the end of the period of mentioned in section 4(4)(a)’ and insert ‘for each financial year’.

Fel gwelliant i welliant 24, llinell 2, hepgorer ‘dim hwyrach na’r cyfnod o 5 mlynedd sy’n dechrau yn union ar ôl diwedd y cyfnod a grybwyllir yn adran 4(4)(a)’ a mewnosoder ‘ar gyfer pob blwyddyn ariannol’.

Byron Davies

24B

As an amendment to amendment 24, after line 6, insert –

- ‘() In meeting the duty under subsection 1, the Welsh Ministers must lay before the National Assembly for Wales a report that –
- (a) collates the information gathered pursuant to subsection (1),
 - (b) sets out the costs incurred by each local authority pursuant to its duty under section 7(1).
 - (c) provides an analysis of the finance required by local authorities to enable them to deliver the improvements identified in their integrated network maps, and
 - (d) notes the financial support provided by the Welsh Ministers to local authorities to enable those improvements to be delivered.’

Fel gwelliant i welliant 24, ar ôl llinell 6, mewnosoder –

- ‘() Wrth gyflawni’r ddyletswydd o dan is-adran 1, rhaid i Weinidogion Cymru osod adroddiad gerbron Cynulliad Cymru sydd yn –
- (a) casglu’r wybodaeth a gesglir yn unol ag is-adran (1),
 - (b) nodi’r costau y bydd pob awdurdod lleol yn mynd iddynt yn unol â’i ddyletswydd o dan adran 7(1).
 - (c) darparu dadansoddiad o’r arian a fydd yn ofynnol gan awdurdodau lleol i’w galluogi i sicrhau’r gwelliannau a nodir yn eu mapiau rhwydwaith integredig, a
 - (d) nodi’r cymorth ariannol a ddarperir gan Weinidogion Cymru i awdurdodau lleol i alluogi’r gwelliannau hynny i gael eu cyflawni.’

Byron Davies

47

Section 2, page 2, line 1, leave out ‘or of a description specified, in a direction given by the Welsh Ministers; and the Welsh Ministers may, in particular, specify a locality, or description of locality, by reference to the density of its population, its size, its proximity to densely-populated localities above a particular size or its position between such localities’ and insert ‘in an order made by a local authority’.

Adran 2, tudalen 2, llinell 1, hepgorer ‘neu o ddisgrifiad sydd wedi ei bennu, mewn cyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru; ac y caiff Gweinidogion Cymru, yn benodol, bennu man, neu ddisgrifiad o fan, drwy gyfeirio at ddwysedd ei phoblogaeth, ei maint, ei hagosrwydd at fannau dwys eu poblogaeth sy’n fwy na maint penodol neu ei safle rhwng y cyfryw fannau’ a mewnosoder ‘mewn gorchymyn a wneir gan awdurdod lleol’.

Byron Davies

48

Section 5, page 5, line 4, leave out ‘have regard to’ and insert ‘consider’.

Adran 5, tudalen 5, llinell 5, hepgorer ‘roi sylw i ganllawiau’ a mewnosoder ‘ystyried canllawiau’.

Byron Davies

49

Section 7, page 5, line 13, leave out 'have regard to' and insert 'consider'.

Adran 7, tudalen 5, llinell 14, hepgorer 'roi sylw i ganllawiau' a mewnosoder 'ystyried canllawiau'.

Byron Davies

50

Section 10, page 5, after line 29, insert—

- '() Guidance given by the Welsh Ministers under this Act must—
 - (a) draw together best practice from each local authority, and
 - (b) be regarded as advisory in character.'

Adran 10, tudalen 5, ar ôl llinell 30, mewnosoder—

- '() Rhaid i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf hon—
 - (a) casglu ynghyd arfer gorau o bob awdurdod lleol, a
 - (b) cael eu hystyried yn gynghorol eu natur.'